OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2017 Rhif 949 (Cy. 237) (C. 85)

# IECHYD Y CYHOEDD, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017

*Gwnaed - - - - 27 Medi 2017*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 126(2) a (3) o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

### Enwi a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 (Cychwyn) 2017.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017.

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 4 Hydref 2017

**2.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 4 Hydref 2017—

(a) adran 2 (strategaeth genedlaethol ar atal a lleihau gordewdra: cyhoeddi ac adolygu);

(b) adran 3 (gweithredu'r strategaeth genedlaethol); ac

(c) adran 119 (derbyniadau cosb benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd).

### Y darpariaethau sy'n dod i rym ar 1 Ionawr 2018

**3.** Y diwrnod penodedig i'r darpariaethau a ganlyn o'r Ddeddf ddod i rym yw 1 Ionawr 2018—

(a) Rhan 5 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff); a

(b) adran 94 (dehongli) at ddiben Rhan 5.

(**1**) 2017 dccc 2.

*Rebecca Evans*
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon, un o Weinidogion Cymru

27 Medi 2017

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sydd wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru, yn dwyn i rym ddarpariaethau penodedig o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 ("y Ddeddf").

Mae erthygl 2 yn dwyn i rym ar 4 Hydref 2017 ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf sy'n ymwneud â'r strategaeth genedlaethol ar atal gordewdra a lleihau lefelau gordewdra yng Nghymru.

Mae erthygl 2 hefyd yn dwyn i rym ar 4 Hydref 2017 ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf sy'n ymwneud â derbyniadau cosb benodedig ar gyfer troseddau sgorio hylendid bwyd o dan Ddeddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013.

Mae erthygl 3 yn dwyn i rym ar 1 Ionawr 2018 ddarpariaethau penodol o'r Ddeddf sy'n ymwneud â rhoi twll mewn rhan bersonol o gorff plentyn.